"Profwch bob peth; deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

YR

YMOFYNYDD;

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

CYFRES NEWYDD.] MEHEFIN, 1889. [RHIF 18.

CYNNWYSIAD.

	TUD.
Crefydd	121
Salm xix	125
Y Calaniadur Cymreig	126
Savonarola	128
Y Pader mewn Cynghanedd Unodl	133
Dyddlyfr Rhywun	134
Gwroldeb Nansi	136
Y Cyrddau Chwarterol	138
Cwpanaid o Ddwfr Oer	139
Nodynau Gwasgarog	141
Manion a Hanesion	143
Marwgofion	144

Pris Tair Ceiniog.

ABERDAR:

ARGRAFFWYD GAN JENKIN HOWELL, COMMERCIAL PLACE.

AT EIN DERBYNWYR.

TALIADAU:—T.Ll., Porthcawl; B.B., Treherbert; Rev. W.P.; W.J., Pitcott Cottage; D.E., Ferndale, W.L., Pontypridd; T.D., Dolbwba; J. E., New Castle Emlyn; P.P., Blaentrafle; J.L., Dowlais; Rev. W.J., B. A.; T.T., Merthyr; E.J., Aberdare; R.Ll., Bwllfa.

☞ Anfoner pob gohebiaeth at y Golygydd,

J. HATHREN DAVIES,
CEFNCOED,
NR. MERTHYR TYDVIL.

☞ Tyner pob *Post Office Order* ar y *Cefn* Post Office, ac yn enw J. H. Davies, Editor, &c. Cofier, fodd bynag, fod y *Postal Orders* weithiau yn rhatach nâ'r *Post Office Orders*. Fe ddylid bob amser defnyddio *Postal Orders* yn lle *stamps* mor bell ag y gellir.

TELERAU:—Pris 3c., trwy'r post, 3½c.; ar dri rhifyn a throsodd telir y cludiad.

Y CYFARFODYDD BLYNYDDOL.

Cynnelir y Cyfarfodydd Blynyddol ar ddyddiau Mercher a Iau, y 26ain a'r 27ain cyfisol, yn Nghapelybryn, Cwrtnewydd. Nos Fercher am 6.30, a boreu Iau am 10. Y pregethwr appwyntiedig, y Parch. J. Hathren Davies. Y pwnc, "Trefniant Eglwysig," ar yr hwn y darllenir papyr gan y Parch. R. J. Jones, M.A. Croesaw calonog i bawb i'r cyfarfodydd. JNO. DAVIES, Gweinidog.

THE GRAMMAR SCHOOL, LLANYBYTHER.

HEAD MASTER:—REV. D. EVANS.

For further particulars, apply to Rev. D. Evans, Llanwnen, Llanybyther, R.S.O.

GWEITHIAU CHANNING.

GELLIR cael yr argraffiad rhad o'r uchod, yn rhad trwy y *post*, am 9c. yr un oddiwrth D. J. JONES,

MOUNT PLEASANT GARDEN, ABERDÂRE.

TRYSORFA ADDYSG Y DYNION IEUAINC.

Pob Tanysgrifiadau i'w hanfon i Rev. R. C. JONES, Lampeter Hen-Dy-Cwrdd, Aberdar - - - - - - - - £1 6s. 3c.

LLAWLYFR YR UNDODWR, PRIS 6CH.

Anfoner at D. Evans, Llanwnen, Llanybyther.

Y CALANIADUR CYMREIG.

Os dygwydd i rai o'n derbynwyr weled fod enwau wedi eu gadael allan, carem glywed oddiwrthynt er gosod y cyfryw yn ein rhifyn nesaf.

YR

YMOFYNYDD.

CYFRES NEWYDD.] MEHEFIN, 1889. [RHIF 18.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—PAUL.

CREFYDD.

PREGETH I'R IEUAINC.

"*Ac a fyddaf yn Dduw iddynt hwy, a hwy a fyddant yn bobl i mi.*"—2 COR. vi. 16.

DYMUNWN ddweyd ychydig eiriau ar y Ffydd Undodaidd parth ei phrif athrawiaethau. Dymunwn appelio atoch i'w meithrin fel eich crefydd bersonol, ac i ddechreu ei gwneyd yn eiddo i chwi eich hunain tra yr ydych etto yn ieuanc, oblegyd nid rhywbeth i gael ei adwaen gan y pen yn unig yw Undodiaeth, fel y gwyddys fod y ddaear yn troi o amgylch yr haul yn maesydd annherfynol gofod; ond y mae yn rhywbeth a ddylai ddyfod yn rhan o ddyn ei hunan. Y mae yn beth sydd yn rhaid ei garu ac ufuddhau iddo. Mae yn rhaid i Undodiaeth gyflawnu ei chenadwri sanctaidd yn ein bywyd a'n calon.

Rhan gyntaf y grefydd hon yw addoliad. Dwg gyda hi lais nefol a orchymyna i ni bwyllo ac arafu yn ein bywyd, a chodi ein hysprydoedd i fyny yn mhell uwchlaw materion y ddaear hon a phethau tymhorol a darfodedig. A ofynasoch chwi erioed i chwi eich hunain beth ydyw gwir ystyr y ffaith ein bod yn dyfod at ein gilydd yn y modd hwn i uno mewn mawl ac i gyd-ddarllen Gair Duw, a chydweddio arno? "Chwe' niwrnod y gweithi, ac y gwnei dy holl waith. Ond y seithfed dydd yw Sabboth yr Arglwydd." Er na chymmerwn ni y geiriau—er nad edrychwn arnynt yn yr un goleu yn union â phan roddwyd y gorchymyn hwn i'r Iuddewon gynt, dychymygwn rywfodd ein bod yn clywed llais y gorphenol yn adseinio yn yr enaid dynol. Mae olwynion masnach megys yn cael eu harafu; mae y bâl a'r llwyarn, y pin ysgrifenu a'r

rhifnodau, a goruchwylion cyffredin y chwe' niwrnod yn cael eu gosod o'r neilldu. Ymdrechwn annghofio y cyfryw. Bydded iddynt gael eu hannghofio, a cheisiwn am y Duw byw, fel y gallom ddyfod i'r teimlad dymunol hwnw a amlygir yn y llinellau hyn :—

"Melus yw dydd y Sabboth llon,
Na flined gofal byd mo'm bron ;
Ond boed fy nghalon I mewn hwyl,
Fel telyn Dafydd ar yr wyl."

Oblegyd dechreuwn deimlo yn awr fod rhywbeth yn perthyn i'n bywyd heblaw y pethau ydym yn rhwym o feddwl llawer am danynt yn ystod yr wythnos, ac y dylem ni dalu sylw hefyd i'r Yspryd sydd yn dyfod i lawr o'r nefoedd. Os ydych wedi bod erioed ar gopa mynydd uchel, yr ydych o bossibl wedi sylwi pa mor wahanol y mae y byd yn ymddangos i chwi y fan hono na phan ydych ar y gwastadedd. Yr ydych uwchlaw twrw y byd ; annghofiwch yr heol gul a gofal a lludded bywyd ; yr ydych yn anadlu awyr mwy balmaidd a phur.

Mor gyflawn o hyfrydwch a theimlad dymunol yw y gwaith o edrych allan o'r fan hono ! Oni all hyn fod yn eglurhad o'r hyn y mae addololiad yn ei wneyd i ni ? Nid y rhan gorfforol, ond yr enaid—y rhan ysprydol, sydd yn esgyn i fyny i gopa mynydd bywyd, ac yn cael allan adloniad ac adfywiad yno oddiwrth waith a gofal yr wythnos. Y meddylddrych yw, os gallwn gael ymwared o feddyliau daearol, a dyfod yn agos i Dduw ar ben y mynydd, yna, bydd i ni gael ein hadfywio gan ei gariad, a theimlo rhan o'i heddwch perffaith Ef. Efallai nad ydych chwi, y rhai ieuainc, yn teimlo hyn gymmaint a'ch hynach a'ch doethach, a mwy profiadol. Nid ydych etto wedi cyrhaedd y tymhor hwnw mewn bywyd pan y mae yn perthyn iddo lawer o ofal a blinder, a phan y mae ei ddyledswyddau yn gorphwys yn drwm ar yr ysprydoedd. Y mae bywyd yn beth *fresh* i chwi. Y mae ieuenctid yn ystwyth a gobeithiol. Y boreu ydyw ; y Gwanwyn ydyw, pan y mae goleuni yr haul yn felus, a'r awyr yn dyner gan gafodydd. Ac felly, fel y dywedasom yn barod, nid ydych etto yn teimlo gwerth yr oriau hyn o orphwysfa ac addoliad. Ond pan ddeuwch yn hynach, gellwch gael allan efallai fod rhywbeth yn y galon, fod rhyw ran ysprydol yn eich natur, yr hon ni all gael un boddhad nefol ond mewn meddyliau nefol am, a'r teimlad hapus o fod Duw y Tad yn agos iawn atom ni. Dywed y Salmydd mewn un man, "Llawenychais pan ddywedent wrthyf, Awn i dŷ yr Arglwydd. Ein traed a ssfant o fewn dy byrth di, O Jerusalem." Y mae y byd wedi cyfnewid llawer oddiar y cyfnod hwnw, ac yr ydym ni yn byw mewn amgylchiadau gwahanol iawn ; etto, y mae pobl i'w cael yma yn bresenol ag ydynt yn llawen pan y mae'r awr weddi ac addoliad wedi dyfod, a phan y gallant fyned i fyny i'r lle sanctaidd, ac i bresenoldeb y Goruchaf, ac yma drachefn y mae yr un fendith yn cael ei thywallt ar bawb sydd yn ei addoli Ef mewn yspryd a gwirionedd.

A chredwn ni fod y sawl sydd yn hiraethu am ddyfod yn agos at Dduw i geisio ei gymhorth sanctaidd Ef yn canlyn un o gynneddfau mwyaf prydferth ein natur, yr hon y mae wedi ei gwneyd yn ol ei gyffelybrwydd ei Hunan.

Ond nid yw addoliad ond un hanner o grefydd; yr hanner arall ddylai addoliad ein hadgofio o hono bob amser yw yr angenrheidrwydd mawr ac hanfodol am fywyd uniawn a sanctaidd. Y mae presenoldeb Duw yn dwyn nid yn unig adloniad a llawenydd dros yr awr bresenol, yr hon sydd yn myned heibio, ond ei amcan yw ein dysgu ni pa fodd i ffurfio ein holl fywyd mewn gwirionedd, a chyflawnu bob amser yr hyn sydd dda.

Yn awr, gesyd y ffydd Undodaidd bwys neillduol ar hynyma o beth —ar fywyd cyfiawn a chariadus. Nid ydym ni am yngan un gair anngharedig, ond ymddengys yn fynych i ni fel pe na fyddai Eglwysi Cristionogol—eglwysi gwahanol i'r eiddom ni—ddim yn gosod cymmaint o bwys ag a ymdrechwn ni ei osod ar y prif fater hwn. Oblegyd fod ganddynt hwy gymmaint i siarad yn fynych parth yr hyn y mae yn rhaid i chwi ei gredu ac yn nghylch ffurfiau allanol, nid oes ganddynt braidd ddim amser i dalu sylw dyladwy i bethau syml y cymmeriad, y rhai sydd yn llawer pwysicach. Dywed rhai o honynt fod yr Iesu wedi gweithio allan bob iachawdwriaeth yn ein lle ni, a dywedant felly mor aml, fel yr edrychant dros ben ac y teimlant yn bur ddifater yn nghylch yr egwyddor neu y rhinwedd annghymharol uwch, sef mai canolbwynt a bywyd crefydd yw *gwneyd daioni a bod yn dda*, bob un drosto ef ei hunan. Yr ydym wedi gweled rhai pobl grefyddol wedi iddynt gyfranogi yn dduwiol o'r sacramentau, a chredu yr hyn ddywedid wrthynt gyda golwg ar Grist i fod yn Iachawdwr iddynt, yn meddwl mai y math hwn o grefydd oedd braidd y cwbl a ofynid oddiwrthynt, ac nid ymddengys eu bod yn deall a chredu y dylent ymdrechu dyfod yn fwy geirwir, mwy gostyngedig, mwy mwynaidd a thosturiol, a mwy tebyg i Grist ynddynt eu hunain. Ond o'r tu arall, dywedwn fod ein dysgeidiaeth Undodaidd wedi bod yn ofalus i osod pwys neillduol bob amser i ddywedyd, "*Edrychwch* ar fod eich holl fywyd yn dda; nad ydych yn gwyro oddiar lwybr cydwybod; mynwch weled fod eich bywyd yn bur, a'ch bod yn gariadus at bawb mewn gair a gweithred."

Gofynwch i wir Undodwr beth yw y peth mwyaf a ddysgwylia Duw oddiwrthym, ac mae yn sicr o ateb "*Cymmeriad* rhagorol a pherffaith, i omedd cyflawnu pechod, i wneyd ewyllys Duw." Pa bethau bynag sydd bur a gwir, pa bethau bynag sydd onest a chyfiawn, pa bethau bynag sydd hawddgar a chanmoladwy, meddyliwch am y pethau hyny. Dyma y pethau goreu y gallwn feddwl am danynt. Ni ddywedwn wrthych fod yn rhaid deall holl gynllun iachawdwriaeth, oblegyd mae gweithrediadau Ysbryd Duw yn eangach ac uwchlaw ein deall neu ein hamgyffredion ni. Ni ddywedwn wrthych fod yn rhaid i chwi ufuddhau a chydymffurfio â rhyw hen arferiadau detholedig, neu na ellwch fod yn gadwedig. Dyma y peth osodwn ni yn flaenaf fel y prif orchymyn a esyd ein haddoliad o'n blaen :—Ceisiwch ddoethineb, a byddwch ofalus i fyw fel y dymuna Duw i chwi fyw—mewn rhinwedd, yn mhob

gras melus a chariad tirion. Nid oes dim sydd uwch; nid oes dim yn fwy gwir grefyddol nâ hyn. Meddyliwn fod ein bywyd fel adeiladu ty, yr hwn sydd raid ei adeiladu ar sail gadarn a dyogel, a'r hwn y mae yn rhaid adeiladu ei furiau, a phob rhan arall o hono, yn onest a chadarn ar y graig. . . .

Tuedd addoliad Undodaidd, gan hyny, yw gwneyd ein bywydau yn well a mwy rhagorol; ei amcan yw ein dysgu ni pa fodd i gyflawnu ein dyledswyddau gyda chalon a meddwl mwy difrifol, ac i garu ein cymmydogion fel nyni ein hunain.

Y sail—yr hyn yr adeiladwn arno—yw bywyd Crist. Dymunwn ymdrechu bod yn wneuthurwyr y Gair, ac nid gwrandawyr yn unig. Dwg ein crefydd ni yma i addoli Duw, ond y llais sydd yn siarad wrthym bob amser ar yr awr weddi yw llais *bywyd*, yn erchi i ni osod o'r neilldu bob drwg, ac ymdrechu cyflawnu bob amser yr hyn sydd gymmeradwy yn ei olwg Ef, fel dysgyblion Iesu Grist. Yn awr, nid yw y bywyd perffaith yn dyfod o hono ei hunan; angenrhaid yw ei feithrin a'i ddysgu, a thyfu ynddo, yr un fath ag y cynnydda dyn mewn gwybodaeth—trwy ymdrech fyfyrgar, neu yn debyg iawn i'r modd y dysga y breintwas ei grefft—wrth ymarferiad parhaus. Ni ddaw yr oll ar unwaith, ond ychydig ar ol ychydig. Oni ddywedir wrthym fod yr Iesu wedi cynnyddu mewn doethineb a maintioli? "A'r bachgen a gynnyddodd ac a gryfhaodd yn yr yspryd." Ni ddaeth i ddyndod ar unwaith, ond yn raddol, a dyma'r ffordd y mae o angenrheidrwydd bob amser. Ac yn awr, crefwn arnoch i wneyd sylw o hynyna—fod yn ein natur ddynol ryw duedd hynod a rhyfeddol i beru i ni ail-wneyd yr hyn ydym wedi ei ddweyd a'i wneyd unwaith, i ffurfio yr hyn a elwir arfer. Mae yr hyn a gyflawnwn neu a feddyliwn am dano heddyw yn ymgynnyg i'r meddwl yfory; daw y gwaith o gyflawnu a meddwl yn haws gwaith o hyd. Nid yw eich arferiadau chwi sydd megys ar wynebu y byd wedi eu ffurfio a'u sefydlu etto; yn mhen ychydig flynyddoedd etto byddwch megys wedi sefydlu eich hunain yn rhyw ddull neu arferiad neillduol o ymddygiad a theimlad, a bydd i'r cyfryw reoleiddio neu ddylanwadu ar eich ymddygiad drwy gydol eich oes. Gofynwn, gan hyny, i chwi beth gaiff y dulliau hyny fod? Pa gwrs a gymmerwch? Pa lwybr a ddewiswch? Ai yr un cam neu yr un cymhwys? Pwnc prysur yw hwn i chwi gymmeryd at eich ystyriaeth. Mae y gwahaniaeth a fodola rhwng y dyn da a'r dyn drwg yn un sydd wedi cael ei ffurfio yn araf gan y gwaith, ar un llaw, o ffurfio arferiadau yn araf, pwyllog, ac ystyriol; ac o'r tu arall, trwy ddifaterwch, anystyriaeth, ac ymollyngiad graddol yn moreu oes gydag arferiadau drwg. Yr oedd y ddau gymmeriad yn debyg iawn i'w gilydd yn y cychwyn; cychwynasant gyda'u gilydd; darfu iddynt ddysgu da neu ddrwg yn yr un modd—yn raddol drwy ymarferiad. Ond efallai ei fod yn fwy anhawdd i ddysgu bywyd da, neu i fyw bywyd da, fel y mae yn fwy anhawdd esgyn i ben mynydd nâ myned oriwaered dros y llethr.

Felly, y gorchymyn y dymunwn ei argraffu ar eich meddyliau yw, na chaniatewch i chwi eich hunain gael eich tynu neu eich temtio i absenoli eich hunain o'r gwasanaeth Dwyfol, oblegyd, fel y dywedasom

yn barod, y mae yn beth cymharol rwydd i gadw yn y ffordd dda pan ydym ynddi, ond nid yw yn waith mor rhwydd i ddychwelyd yn ol i'r llwybr hwnw pan wedi gwyro oddiarno a myned ar gyfeiliorn. Gwyddom am lawer o bobl ieuainc wedi dechreu yn dda—wedi bod yn mysg ein cydaddolwyr dros amser, ond wedi hyny yn ffoi, ac y mae rhai yn ddiau, wrth ddadgyssylltu eu hunain oddiwrth y gwasanaeth crefyddol, wedi syrthio i ddrwg, ac wedi colli y bywyd uwch a ymddangosai i fod yn eiddo iddynt. Esgusodent eu hunain ychydig ar y cyntaf; yna, mewn modd araf, darfu iddynt ffurfio arfer o natur arall—i wyro yn araf oddiwrth yr un dda.

> "It is the little rift within the lute
> That by-and-by will make the music mute,
> And ever widening, slowing silence all."

J. T. M.

SALM XIX.

Gan y diweddar Barchedig Mr. Risiart Rhys, o'r Gwernllwyn, yn Merthyr Tydfil.

"Mae'r nefoedd fry yn datgan i ni ogoniant Duw,
Uwchben y mae'r ffurfafen yn dysgu dynol ryw;
Mae'r haul, a'r ser, a'r lleuad a'r holl blanedau 'nghyd,
Yn g'nifer o bregethwyr i amryw barthau'r byd.

Mae'r dydd a'r nos olynol yn traethu yn gytun,
Gan ddysgu gwersau dystaw i bob ystyriol ddyn;
Ac er nad oes na thafod na 'madrodd gan y rhai'n,
Nid oes na gwlad na phobl lle ni chyrhaedda'u sain.

Yr haul yn enwedigol 'r hwn sydd â'i babell fry
Sydd un dysgawdwr hynod ym mysg y nefol lu;
Pan godo yn y Dwyrain ar foreu goleu, gwn
'Does un priodfab hardd-deg mor hoywed ag yw hwn.

Bob dydd tua thy'r Gorllewin mae'n symmud ar ei daith,
Mor wisgi ag un rhedegwr, am draws yr wybren faith;
Ac yn ei gylch blynyddol i'r Gogledd ac i'r De',
Fe ddwg ei wres ar droion i loni pob rhyw le.

Mae gwaith y greadigaeth a gwaith Rhagluniaeth Duw
Yn dweyd mai Hanfod nerthol a doeth anfeidrol yw;
Rhaid oedd wrth allu i wneuthur, ac wrth ddoethineb mawr
I drefnu'r hyn a wnaethpwyd o'r dechreu hyd yn awr.

Yn llyn mae'r pethau welir yn dysgu pawb i dd'od
I barchu ac anrhydeddu yr Hwn a roes eu bod;
Mae hyd y nod paganiaid heb esgus gwir na phle,
Os bod yn anniolchgar a wnant hwy iddo Fe.

Ac er bod ein dyledswydd yn cael ei rhoi mewn rhan
O'n blaen yn llyfr natur, nid yw y goleu ond gwan;
Os awn ni i'w gymharu â'r datguddiadau wnair
Yn y 'Sgrythyrau Sanctaidd, y 'sgrifenedig Air.

Mae hon yn rheol berffaith i arwain dyn yn ol
I union ffordd sancteiddrwydd o'i lwybrau ffiaidd, ffol;
Tystiolaeth sicr ydyw yn d'od â rhai o fysg
Gwirioniaid anwybodus i gyrhaedd iachus ddysg.

Mae'r rhai'n yn werthfawrocach nag aur profedig coeth,
Ac yn felusach hefyd nâ mel i'r galon ddoeth;
Rhag drwg ar bob amserau ceir rhybudd ynddynt hwy,
O'u cadw'n gydwybodol mae gwobr fwy na mwy.

Ond hyn, O Arglwydd, ydyw fy anhapusrwydd I
Fod mod I'n ffaelu dylyn dy reol berffaith Di;
'Rwy' wrth gymharu' mywyd â'r hyn sydd yno i lawr
Yn gwel'd fy anwireddau yn lluosogi'n fawr.

'Rwy'n erfyn ar dy fawredd i rasol ganiatau
I'm gael oddiwrth fy meiau cuddiedig fy nglanhau;
A gwared fi'n enwedig rhag pob rhyfygus fai,
Ac yna fy euogrwydd a fydd yn llawer llai.

Atolwg, boed derbyniad grasusol ger dy fron,
Fy Nghraig a'm Prynwr nerthol, i'r gân a'r gyffes hon;
A phan ddyrchafwyf atat, fy ngweddi clyw fy llef,
Gogwydda'th glust i wrando o'th annedd yn y nef."

Y CALANIADUR CYMREIG.

MEHEFIN.

3, 1659, m. Morgan Lloyd o Wynedd. Ganwyd 1619. Un o brif lenorion Cymru.

4, 1742, claddwyd y Parch. Jenkin Jones, Llwyn. Aeth i Goleg Caerfyrddin 1721.

5, 1787, ganwyd John, mab D.D., Castell Hywel.

5, 1723, urddwyd y Proff. Evan Davies yn Albany Chapel, Haverfordwest. Tad y Parch. Phillip Davies, Billarecay, a brawd Timothy Davies, Caeronen.

MEHEFIN *(parhad)*.

6, 1748, ganwyd Thomas, mab Timothy Jacob, Goetre, Llangybi. Bu'n byw wedi hyny yn Pentre Sion. Brawd D.D., Castell Hywel.
8, 1792, urddwyd David Peter yn Nghaerfyrddin. Wedi hyny, Prif Athraw'r Coleg.
9, 1825, m. Dr. Abraham Rees, yr *encyclopædist*. Ganwyd 1742.
10, 1863, m. John Thomas, Pontsian. Awdwr *Cwyn y Cristion*. Oed 88. YMOF. 1863.
10, 1755, ganwyd Jenkin S. Jenkins. Mab Siencyn Thomas, Cwmdu.
11, 1709, ganwyd Philip Dafydd, Penmain. Bu farw Rhagfyr 17, 1786. Un o *heresy hunters* ei oes. Y llall oedd Edmund Jones, Pontypwl.
11, 1866, m. Evan Evans, Maesmynach. Oed 80. Brawd Daniel Ddu.
11, 1825, m. David Phillips, Pantmaen. Un o sylfaenwyr Rhydyparc. Awdwr cyfrol fechan o emynau. Oed 74. YMOF. 1859, t. 195.
14, 1762, m. y Parch. Evan Thomas, Marshfield. Oed 55. Cyfaill i T.D., Caeronen.
14, 1817, m. y Parch. David Evans, gweinidog Marshfield 40 mlynedd. Oed 67. Ai hwn fu yn weinidog H.D.C. Aberdar? Os felly, rhaid ei fod yn ieuanc iawn ar y pryd. YMOF. 1854.
14, 1810, m. y Parch. Daniel Jones, Trowbridge. Oed 40. Ganwyd yn Trelech.
18, 1819, m. y Parch. William Williams, Ilminster. Derbyniodd ei addysg gyda'r Parch. John James yn Ystrad; wedi hyny yn Nghaerfyrddin (1817).
19, 1821, m. Mary, gwraig Rees Rees, Cilgell Isaf. Y cyntaf a gladdwyd yn Nghapel-y-Groes. Merch Thomas Davies, Pentre Sion. Oed 43.
19, 1740, priododd y Parch. Tim. Davies, Caeronen, yn Llangeitho, y Parch. John Rowlands yn gwasanaethu.
19, 1756, marw mam y Parch. David Lloyd, Llwynrhydowen.
20, 1766, ganwyd y Parch. Thomas Evans, Penpistyll (Aberdar).
21, 1848, m. y Parch. Thomas Evans (Kingswood), Lowtref, Llanwnen. Oed 36.
21, 1798, m. y Parch. Edward Evans, Toncoch, Aberdar. Oed 82.
21, 1878, gosodwyd sylfaen capel newydd y Llwyn.
21, 1822, m. William Howell, gweinidog yn Abertawe 28 mlynedd. Ganwyd 1740.
21, 1714, m. Mathew Henry, yr esponiwr. Yr oedd ei dadcu yn Gymro, ac yn byw ger Briton Ferry.
24, 1825, m. y Parch. John Evans, Caerfyrddin. Ganwyd 1782. Traddododd bregeth angladdol i'r Dr. Abraham Rees y Sul cyn ei farwolaeth. Nai fab brawd iddo yw Alcwyn C. Evans.

MEHEFIN *(parhad)*.

24, 1835, m. y Parch. B. R. Davies, Chowbant. Oed 65.
25, 1851, m. y Parch. Evan Lewis, Blaengwrach. Ganwyd ger Llanwnen. Oed 64.
25, 1807, ceisiodd y gweinidogion gwyddfodol yn y cwrdd chwarterol yn Blaengwrach gan y Parch. Thomas Morgan i wneuthur Casgliad o Emynau. YMOF. 1877, t. 267.
27, 1816, traddododd y Parch. John Evans, Caerfyrddin, ei bregeth ar Undod Duw.
28, 1739, m. y Parch. Rees Price, Ty'nton, tad y Parch. Dr. Richard Price.
29, 1816, m. David Williams, sylfaenydd y *Literary Fund*. Ganwyd yn Watford, ger Caerdydd, tua 1738.

Mehefin, 1760, ganwyd y Parch. Daniel Davies, Ynysgau, wythfed a ieuengaf fab y Parch. James Davies, Abermeurig. Bu farw yn Nghaerffili, 1851.

SAVONAROLA.

AR wastadeddau Itali, heb fod yn mhell o Gulfor Venice, y gorwedd dinas henafol Ferrara. Amgylchynir hi gan furiau a thyrau amgaeredig; ac yn nghanol y ddinas mae yr hen gastell, yn nghyd â'i gadwyni a'i ffos, yn adrodd hanes terfysglyd yr amseroedd rhyfelgar y mae wedi eu gweled. Bedair canrif yn ol, yr oedd gwlad brydferth yr Eidal yn cael ei thori i fyny i lawer o raniadau. Yr oedd gwahanol dywysogion neu farwniaid yn llywodraethu dros eu dinasoedd a'u tiriogaethau eu hunain, ac yr oedd pob un o honynt yn barod, heb un esgus bron, i ymrafaelio a'i gymmydog. Yr oedd Ferrara yr amser hwnw yn cael ei llywodraethu gan Dduciaid mawrion Tŷ Este. Preswylient mewn palas ysplenydd, a rhoddent wleddoedd gwychion i'r dinasyddion pleser-garol. Ar yr un pryd cefnogai y Duciaid hyn ddysg yn gystal â llawenydd. Adeiladent neuadd-dai i ddarlithio a llyfrgelloedd, a gwahoddent ddynion dysgedig i ddyfod i gartrefi yn y dref. Ond yr oedd llawenydd a dysg yn cael eu hannghofio weithiau gan derfysg a berw rhyfel. Mae adgofion am yr hen amseroedd hyn fel pe bai o hyd yn ddadfyw yn heolydd ysmala, ac yn nhyrau a phalasau hynafol Ferrara.

Yn y bymthegfed ganrif, pan oedd y Duc Nicholas o Este yn llywodraethu y ddinas, yr oedd son am hen ddoctor doeth, o'r enw Michel Savonarola, wedi cyrhaedd y Duc, o Padua. Gwahoddodd y doctor i Ferrara i ymsefydlu yno fel physigwr a darlithydd; a gadawodd Michel Savonarola Padua, a dygodd gydag ef ei fab Nicholas, a gwraig ei fab i wneyd cartref newydd yn Ferrara. Cyn hir daethant mor gynnefin ag arferion a golygfeydd eu cartref newydd, fel y gellid meddwl eu bod

wedi byw eu holl fywyd yno. Yr oedd gan fab y doctor ddau blentyn bychan, ac yn fuan cawsant gymdeithion dyfyr i chwareu ac i gymmeryd lle y rhai a adawsant yn Padua, ac yr oedd y plant yn meddwl, wrth weled gorymdeithiau gorwych y duc, mai lle braf oedd Ferrara. Cyn bo hir, yn y flwyddyn 1452, ganwyd bachgen arall yn nheulu Nicholas Savonarola. Yr oedd chwareu â'r baban newydd yn fwy o ddyfyrwch i'r plant na gwylied y baneri a'r bobl drwsiadus yn y gorymdeithiau. Arferai yr hen dadcu penllwyd ddyfod i fagu yr un bychan ar ei liniau, ac i siarad a'i fam yn nghylch dyfodol ei phlentyn. 'Doedd neb yn gallu gwybod yn gywir p'am oedd y trydydd baban mor anwyl i galon yr hen wr: ond felly'r oedd. Arferai Michel Savonarola ragddweyd dyfodol mawr ar gyfer yr un bychan, tra y gwrandawai y fam yn llawen ar y siarad gobeithiol hwn, a chredai hithau fod bywyd mawr a godidog yn aros ei bachgen.

Galwyd y baban yn Girolamo Savonarola. Flwyddyn ar ol blwyddyn tyfai i fyny yn blentyn dystaw, prudd, na chwareuai'n llawen gyda bechgyn ereill o'r un oedran ag e'. Carai efe grwydro wrtho'i hunan trwy y 'strydoedd culion, tröellog, ac edrych i fyny ar y tai a'r tyrau oeddynt yn crogi rhyngddo a'r awyr deneu, lâs. Ond gwelid ef yn aml gydag un cydymaith; a'r cydymaith hwnw oedd yr hen ddoctor dysgedig ei dadcu. Arferai y plentyn "drotian" wrth ochr yr hen wr, fel yr elai i'r neuadd i ddarlithio, neu ymwel'd â'r cleifion yn y dre'. Ni hidiai Girolamo am driciau direidus a chwareu diniwed plantos ereill, ond hidiai lawer am bethau tlws a phrydferth. Y goleuni coch dros y gwastadedd, pan oedd yr haul yn machlud, a'r gwynebau swynol oeddynt wedi cael eu paentio ar furiau'r eglwys yn y dref,—yr oedd y pethau hyn yn ei foddhau ef; ac yr oedd yn caru gwrando ar swn y clychau yn cael ei gario ar y gwynt, neu i y seiniau swynber o'r palas, pan oedd y duc yn gwledda oddifewn. Troai ymaith oddiwrth bob sain afler a phob golygfa annymunol, a phan fyddai ambell i fonach Dominicanaidd yn ei wisg ddu a'i gwcwll yn pasio trwy'r heolydd, yr oedd Girolamo wrth gyfarfod ag e', yn aml yn arswydo rhagddo, ac yn dweyd wrtho ei hunan, "Charwn ni ddim bod yn fonach."

'Nawr yr oedd Nicholas Savonarola a'i wraig yn meddwl y byddai i blentyn mor dawel a phrudd yr olwg yn sicr o astudio'n dda, ac o wneyd doctor dysgedig pan y tyfai'n ddyn. Felly, penderfynwyd y cawsai ddylyn galwedigaeth ei dadcu, ac yr oedd yr hen Ddoctor Michel am ei ddysgu a'i hyfforddi i'r perwyl hwnw ei hunan. Aeth amser heibio hyd nes oedd y plentyn yn ddeg mlwydd oed. Y pryd hwnw torwyd yr holl gynlluniau. Nid oedd pobl Ferrara mwyach yn gweled y tadcu gyda'i wallt gwyn yn arwain ei 'sgolor bychan yn ei law trwy y dre', a gorfu i'r duc chwilio am physigwr arall yn lle yr un ag oedd yn anwyl ganddo, oblegyd yr oedd yr hen ddoctor doeth a ddygodd efe o Padua, wedi marw.

Ar ol hyn, anfonwyd Girolamo i'r ysgol gyhoeddus yn Ferrara. Tyfai yn dal a theneu, darllenai a myfyriai, tra yr ymbranciai yr ysgolheigion ereill ar hyd y maesydd yn ystod y gwyliau, neu yr hwylient eu badau ar yr afon a lifai y tu faes i furiau'r ddinas. Er hyny, er

ei fod bob amser yn gweithio'n galed yn yr ysgol, nid oedd yn carn'r llyfrau a ddarllenai yno. Yr oeddynt yn sych a dichwaeth, wedi cael eu hysgrifenu gan ddynion dysgedig yn mhell cyn ei amser ef, y rhai "oeddynt yn dadleu llawer yn nghylch eu hamcanion gweigion eu hunain." Dyma beth oedd meddwl Girolamo am danynt. Y gwirionedd oedd, yr oedd ei feddwl yn troi yn naturiol at y byd oddiamgylch iddo, ac at fywydau ac achosion dynion ei amser ei hunan. A pha les iddo oedd y cwestiynau a'r *problems* oeddynt wedi bod yn dyrysu penglogau athronwyr yn yr hen amser? Ond yr oedd un ysgrifenydd yn mhlith y rhai a elwir yn gyffredin yn "Schoolmen," yn rhoi dyddordeb iddo, ac ymhyfrydai bob amser ei ddarllen. Yr ysgrifenydd hwnw oedd Sant Thomas Aquinas. Dau cant o flynyddau cyn amser Girolamo, yr oedd y dyn hwn wedi bod yn crwydro dros y wlad fel monach, yn pregethu ac yn dysgu yn mhob dinas y deuai iddi. Yn mhlith lleoedd ereill yr oedd wedi ymweled â Ferrara. Yr oedd y cof am dano o hyd yn gyssegredig trwy yr Eidal, ac yr oedd Eglwys Rhufain wedi ei osod yn mhlith ei saint. Gwyddai Girolamo rai o'i ysgrifeniadau ar ei gof; ac fel yr elai y llanc ar ei rodfeydd unig, elai geiriau yr hen fonach gydag ef. Bob wythnos yr oedd yn hiraethu fwy-fwy o hyd am ddod mor sanctaidd, i feddwl meddyliau mawrion, ac i ddylyn ar ol gwirionedd yr un mor galonog ag oedd Sant Thomas Aquinas wedi gwneyd o'i flaen e'.

Felly, cododd brwydr yn meddwl Girolamo. Dechreuodd hiraethu am gyssegru ei hun, fel y monach Aquinas, i'r hyn a elwid yn fywyd crefyddol. Etto, nis gallai feddwl am siomi gobeithion ei dad a'i fam, y rhai oeddynt wedi bwriadu iddo arwain yr un bywyd a'i dadcu. Nid oedd Girolamo yn rhy ieuanc i wybod am y pechod a'r trueni a orweddai y tu cefn i ymddangosiad a llawenydd ei dref enedigol. Gwyddai am y dynion truain oeddynt yn dirwyn allan eu bywydau anhapus yn y carcharau tywyll dan balas gwych y duc, ac yn aml yr oedd wedi clywed hanes am greulonderau a drwgweithredoedd yn mhell y tu hwnt i furiau Ferrara, yn llys mawr y Pab, ac hyd y nod yn yr Eglwys Gatholig Rufeinig ei hun. Am y rhesymau hyn, ni allai gael un pleser yn y bywyd llawen, difeddwl, a arweinid gan bobl Ferrara. Pan oedd dynion a'i hadwaenent ef yn rhyfeddu beth oedd yn ei wneyd e' mor brudd a llonydd, yr oedd efe yn pwyso yr holl wybodaeth hon gyda chalon drist, yn meddwl am y bywyd a arweiniwyd gan Sant Thomas Aquinas, ac yn cynllunio sut y gallai un o'i fath e' helpu i wella'r byd. Bob yn dipyn darfu ei ddychryn plentynaidd o'r mynachod a'r gwisgoedd llaesion. Yn lle hyny, dechreuodd feddwl am danynt wrth yr enw yr oeddynt yn cael eu hadnabod yn gyffredin, sef, "Watch-dogs of the Lord," ac ymddangosai ei ragolygon ei hunan yn dywyllach nag erioed.

Yn y dyddiau tywyll hyny, efallai y gallai doctor da, wrth wneyd ei ddyledswydd bob dydd yn mhlith y bobl ddiofal oddiamgylch iddo, arwain bywyd godidog, a helpu ereill, trwy ei esiampl, i wneyd yr un peth. Ond yr oedd Girolamo yn cyfranogi o opiniynau ei oes wrth feddwl y gallai bywyd offeiriad neu fonach gael ei wneyd yn neillduol

sanctaidd, ac y gallai y cyfryw un helpu i wella y byd mewn ffyrdd nad oeddynt yn agored i ddynion ereill. Dygwyddodd amgylchiad hefyd yn nghylch yr amser hwn, a'i gwahanodd ef yn fwy fyth oddiwrth Ferrara, ei phobl, a'i ffyrdd. Gerllaw tŷ ei dad, fe drigai pendefig, yr hwn oedd wedi cael ei erlid o Florence flynyddau cyn hyny, ond nad oedd byth wedi annghofio rhwysgfawredd diweddar ei dŷ a'i deulu, ac yr oedd yn falch iawn o'r enw hynafol oedd arno. Yr oedd gan y pendefig hwn ferch, ac arferai Girolamo yn aml ei gweled yn rhodiana gylch y tŷ. Weithiau hefyd cwrddai â hi ar yr heol oedd yn arwain at y tŷ. Ar y fath adegau ymddangosai iddo fel pelydr o oleuni yn sirioli yr hen adeiladau tywyll yr elai hi heibio iddynt, ac o'r diwedd yr oedd ei delw yn ymgymmysgu â'i feddyliau am angylion ac am bob peth pur a phrydferth uwchlaw pechodau a ffolinebau'r byd.

Y canlyniad fu iddo yn nghwrs amser syrthio mewn cariad a'r ferch hon, a ymddangosai iddo mor berffaith, a cheisiodd addewid gan yr hen bendefig, a fyddai iddo rywbryd ei chael yn wraig, ond pan y darfu iddo ef a hithau scornio ei gariad, a throi oddiwrtho yn malchder eu calon, oblegyd fod eu teulu hwy yn hynach ac yn fwy urddasol nag eiddo Girolamo, hiraethai yn fwy nag erioed am yr hyn a ystyriai yn symlrwydd ac yn ddifrifwch bywyd mynachaidd.

Yn y cyfamser, yr oedd mam Girolamo yn ei wylied gyda chalon drist. Hi wyddai rywbeth am y meddyliau oeddynt yn ei flino: a phan yr eisteddai efe wrth ei hochr gan chwareu ar ei *lute*, yr oedd ei llygaid yn llanw o ddagrau wrth swn y nodau lleddf. Yna hi a ragwelai fod ei gobeithion am y mab a garai mor arwyl i gael eu siomi. Mor aml yr oedd wedi dymuno am iddo fod yn fwy tebyg i'r plant ereill—yn foddlawn ar bethau fel yr oeddent, yn barod i uno yn ngwleddoedd y Duc yn y palas, fel y rhai ereill, yn y diwedd i fod yn physigwr dewisol y dyn mawr, fel y bu ei dadcu o'i flaen. Druan o Girolamo, gwyddai yntau ddymuniadau ei fam. Yr oedd yn caru ei gartref, ac uwchlaw pobpeth yn caru ei fam. Weithiai teimlai fel pe bai ei galon ar dori, pan feddyliai am y gofid a fyddai i'w gynlluniau newydd ddwyn iddi.

Un boreu o Ebrill pan oedd yr hen dref yn gorwedd yn dawel a llonydd, ac awel dyner yn chwythu trwy y ffenestr agored o'r gwastadedd pell, eisteddai y fam a'r mab gyda'u gilydd yn mrig yr hwyr am y tro diweddaf. Cydiodd yn ei *lute*, a chwareuodd arni yn fwyn y nodau toddedig a ymddangosent bob amser i ddweyd wrthi am ofid oedd ar ddyfod. Yna hi dorodd ar y dystawrwydd, a dywedodd wrtho ei bod yn gwybod eu bod i ymadael. Dranoeth, gadawodd Girolamo dy ei dad, i ddechreu y bywyd anadnabyddus y meddyliai ei fod wedi cael ei alw iddo.

Yr oedd pobl Ferrara yn effro ac yn barod i roesawi haul y boreu pan y gwawriodd ar y 24ain o Ebrill, 1475. Yn mhen awr neu ddwy yr oedd yr holl ddinas yn fyw ac yn llawn gwaith. Yr oedd gŵyr, gwragedd, a phlant, wedi ymwisgo yn eu dillad goreu, ac yn ymdyru at eu gilydd o bob cyfeiriad i weled y campau a'r rhyfeddodau, oblegyd yr oedd hwn yn ddydd mawr yn Ferrara. Yr oedd gwyl Sant

Sior i gael ei chynnal, a Sant Sior oedd noddwr y ddinas, ac yr oedd hen ac ieuanc, tlawd a chyfoethog, yn uno i wneyd dydd gwyl mewn anrhydedd iddo. Yn mhlith ereill a wahoddesid i'r wledd fawr ag oedd wedi cael ei pharotoi gan y Duc Hercules o Este, oedd Nicholas Savonarola a'i deulu. Pan oedd llawenydd y boreu wedi dechreu, fe wnai Girolamo ei ffordd trwy yr heolydd i'r gwastadedd y tu faes i furiau'r ddinas; yma y gwnaeth gwmni a chyfaill arall, yr hwn a ellid yn hawdd weled oddiwrth ei wisg mai mynach oedd. Trodd y ddau ddyn, bron mewn dystawrwydd hollol, eu cefnau ar Ferrara, a darfu iddynt frasgamu'n wrol i'r wlad tua'r Dehau-Ogleddol. Gorweddai yr afon droellog wrth eu hochr am gryn bellder, a than eu traed yr ymdonai y borfa hir dan awelon y nefoedd. O'r diwedd, yn flin a newynog, cyrhaeddasant dref fechan Bologna, ac aethant at y fynachlog Dominicanaidd, a churasant wrth y drws derw am agoriad.

'Nawr, yn ystod yr holl daith hirfaith, ddystaw, fud, yr oedd Girolamo wedi bod yn llawn o feddwl. Yr oedd gyrfa anadnabyddus yn gorwedd o'i flaen e', a chartref anwyl a chyfeillion didwyll o'i ol. Yr oedd meddyliau am y gobeithion oedd efe wedi siomi yn ei dristâu e'; etto, ni wnaeth am foment amheu sibrwd cydwybod ag oedd wedi ei arwain ef allan o ddinas Hafaidd ag oedd mor gyfarwydd iddo i'r mynyddoedd tywyll a thros y gwastadedd i ddyfodol oedd etto heb ei brofi. Yr oedd ei daith ar ben, ac yno safai, yn dysgwyl yn flinedig ar i ddrws y fynachlog agor mewn atebiad i'w guriad. Pan agorodd y drysawr iddynt, aeth y ddau ymdeithydd i fewn. Yna, gwrandawodd y mynachod ar stori Girolamo, a phan oedd wedi darfod, gofynodd iddynt am ganiatad i aros gyda nhw ac i weithio y tu fewn i'r muriau dystaw. 'Doedd e' ddim yn gobeithio am ryw swydd uchel ganddynt, dim ond 'sgubo lloriau celloedd y fynachlog, neu i chwynu'r ardd—unrhyw beth a fyddai o wasanaeth i'r mynachod hyn a ystyriai efe yn weision ffyddlon yr Arglwydd.

Aeth wythnosau heibio, a daeth Girolamo yn gyfarwydd a'r bywyd yn y fynachlog. Yr oedd bob amser yn barod i wneyd y gwaith iselaf ag oedd yn cael ei roddi iddo, ac nid oedd byth yn cwyno ar ol y rhagolygon dysglaer oedd wedi eu taflu ymaith. Telid sylw neillduol iddo, ac edrychai pawb i fyny ato, a charent siarad ag e'. Nid oedd wiw taflu ymaith y gwrtaith a'r addysg oedd efe wedi ennill yn ysgolion Ferrara. Yr oedd yn rhaid rhoi gwaith amgenach iddo na bod yn wasanaeth-ddyn yn y fynachlog: yr oedd yn rhaid iddo ddysgu y rhai ieuainc, y rhai oeddent yn wahanol iddo ef, yn anwybodus ac yn ddiwrtaith i fyw yn mhlith y mynachod. Felly, cafodd Girolamo ei dderbyn fel brawd. Yn y fynachlog gwisgai wisg wen ei urdd, a'r gown du a'r gwcwll pan elai allan i blith y tlodion yn y dref. Cymmerodd yr addunedau Dominicanaidd o ufudd-dod a thlodi, ac o hyn allan adnabyddid ef fel y Fra Girolamo. Un ddyledswydd ag oedd yn gorphwys arno oedd areithio i'r rhai ieuainc ag oeddynt yn dyfod i fewn i'r fynachlog. Ac wrth wrando ar Girolamo clywent eiriau *byw* yn nghanol brawddegau marw, sychlyd, yr hen ysgrifenyddion. Yr oedd o ddifrif yn chwilio'n galed am oleuni a gwirionedd, ac nis gall cym-

meriad y fath ddyn lai na dyfod i'r golwg yn mhob gair ac edrychiad. Felly, y darfu i Girolamo, y mynach ieuengaf yn yr holl fynachlog, ennill mwy o ddylanwad yno nag un person arall. Am saith mlynedd y bu fyw yn mhlith mynachod Bologna. Ond a oedd y fynachlog dawel yr hyn oedd efe wedi dysgwyl ei bod? A ddarfu iddo gael angylion yn lle dynion oddiamgylch iddo, pan y daeth i blith y mynachod. Gyda gofid y gwelodd ei gamsyniad—*yspryd* dyn, nid yr hyn sy'n ei amgylchynu, sy'n gwneyd sant o hono. Yr oedd hyd y nod y mynachod yn rhoddi ffordd i seguryd ac i brofedigaethau ereill sy'n ymosod ar y byd allanol. 'Doedd dim rhyfeddod fod y ffyddlon Gorilamo yn ymddangos yn mhell uwchlaw iddynt: ac ar ddiwedd saith mlynedd dewiswyd ef i fyned allan fel pregethwr i drefydd ereill yn Itali. Nid oedd neb yn amheu na fyddai ei ddylanwad yn fawr yn y cyfeiriad hwn.

(Pw barhau.)

Y PADER MEWN CYNGHANEDD UNODL.

Nefol Dad llawn rhad llwyn a Rhi ydwyd
Iawn odiaeth Duw Celi
Meddylir am addoli
Da iawn a del dy enw Di

Ond hebod gan fod gwan wyf fi a'm buchedd
Drwy bechod yn llosgi
Del i'n oll rhag ein colli
Yn urddas dy deyrnas Di

Gwneler Naf gloywder nef glwys d'ewyllys
Dealler yn gymhwys
Drwy rad fal yn Mharadwys
Hawddgar ar y ddaear ddwys

Heddyw i bob rhyw a rhi dod fara
O dy fawredd gelli
Yn gymmorth i wir borthi
Y dyn a wych luniaist Ti

Maddeu bechodau baich ydyn arnam
Yn oernad in' herbyn
Ninnau heb gel bid gelyn
Sy'n maddeu'n ddiau i ddyn

Nad ein dwyn er mwyn oreu maeth wir Fair
Oreufwyn odiaeth
I oerfawr nad y gad gaeth
A dygyn brofedigaeth

Rhag tynged galed y gelyn a phoen
A phenyd i'n herbyn
A dialedd a'i dilyn
Yn rhwydd O Dduw rhyddha ddyn

N. AI CANT.

O.Y.—Y mae yr uchod mewn cyfrol yn llawysgrifen Iolo Morganwg yn yr Amgueddfa Brydeinig yn Llundain, ac yn debyg o fod yn hen iawn.—S.N.S.

DYDDLYFR RHYWUN.

MAE Golygydd y *Christian Witness* mewn trafferth fawr o eisieu cael cyfleusdra i ddychwelyd y dyddlyfr sydd wedi ei golli i'w iawn berchen; ac er rhoddi cyfleusdra i'r perchenog i'w adnabod, cyhoeddir y rhan hono o hono sydd yn perthyn i'r misoedd cyntaf yn y flwyddyn 1888, a dim ond y Sabbothau a roddir; a chan efallai mai rhyw Gymro sydd yn arfer ysgrifenu ei adgofion yn Saesneg sydd wedi ei golli, dymunir am gyhoeddi y dernyn hwn yn YR YMOFYNYDD.

IONAWR.

1, Gwnaethum ymdrech i fyned allan, gan ei bod yn Sabboth cymmundeb. Yr oedd awydd ar bawb i fyned. Gwasanaeth hir iawn. Wrth reswm, arosais gartref yn yr hwyr.

8, Arosais gartref. Yn oer iawn. Casgliad chwarterol.

15, Cefais anwyd trwm y ddoe. Megais fy hun heddyw, er bod yn barod i waith yfory.

22, Cysgais yn hir. Bwriedais fyned i'r cwrdd yn yr hwyr, ond galwodd Mr.——, a chymmerodd dê gyda ni.

29, Penderfynais gadw yn y ty (ar y Sabbothau) tra y parhao y gwynt Dwyrain-Ogleddol yma.

CHWEFROR.

5, Sabboth cymmundeb. Teimlais yn rhydd i aros gartref, gan na alwodd neb i ofyn paham nad oeddwn yn y cwrdd y Sabbothau a aethant heibio.

12, Wedi blino bod yn y ty. Aethum i'r cwrdd, ond buasai cystal i mi aros gartref.

19, Cysglyd iawn yn y capel. Dihunais, a gwelais y ddau ddiacon a gwraig y gweinidog yn cysgu hefyd.

26, Tybiaf mai prif fai ein gweinidog yw eisieu amrywiaeth yn ei bregethau.

MAWRTH.

4, Gartref—nis gwn yn iawn paham ; dylent wneyd y gwasanaeth yn ddeniadol a phleserus.

11, Casgliad at y gymdeithasfa sirol. Aethum i gapel y Bedyddwyr —yr un peth yno, a gorfu arnaf roddi, gan i mi gael fy ngosod yn eisteddle yr yswain.

18, Gwr dyeithr yn pregethu—gwledd anfynych iawn i ni.

25, Y gweinidog oddicartref. Yn wir, y mae oddicartref o hyd. Pregethwr dirwael heddyw.

EBRILL.

1, Sabboth cymmundeb. Yno, wrth reswm. Gosodais ddernyn llai nag arferol ar y ddysgl.

8, Afiechyd, a dywedir ei fod yn gyffredinol. Ymgedwais yn y ty yn y boreu, ac aethum i rodio yn ngwres y prydnawn er mwyn fy iechyd. (D.S.—Casgliad chwarterol.)

15, Yn y cwrdd, ond dim byd neillduol.

22, Dyn ieuanc poblogaidd iawn wedi dod i'r gymmydogaeth. Aethum fel pawb ereill i'w glywed. (Dywedir fod ein gweinidog ninau *wedi bod* yn boblogaidd unwaith.)

29, Pregethau i'r Ysgol Sabbothol. Cymmerais y cyfleusdra i fyned i glywed y curad newydd.

MAI.

6, Cwrdd Cymmundeb. Deallais fod fy nernyn llai wedi ateb ar y ddysgl o'r goreu.

13, Y tywydd yn dwym. Mr. ——— yn hwy nag *arferol*. Mewn gofid wrth glywed Mrs. ——— yn dweyd iddi fwynhau y bregeth.

20, Gartref. Yn gysglyd, ac yn edrych dros yr hyspysiadau yn y newyddiaduron. Dweyd wrth Mr. ———, yr hwn ddaeth i'r tŷ, fy mod yn ei golygu yn llawn mor fuddiol i ddarllen y Beibl gartref a myned i'r cwrdd.

27, O herwydd fod pethau mor farwaidd ac isel, bwriadu rhoi hanner y gadair i fyny.

MEHEFIN.

3, Sabboth Cymmundeb. Dim ond deuddeg yn nghorff y capel pan ddechreuodd Mr. ——. Rhifais hwynt.

10 a'r 17, Yn fy hoff le ar lan y môr. Aethum i'r eglwys ddwy waith. Deall fod addoldy Ymneillduol yn y lle yn rhywle i'w gael, ond pa fodd y mae yn myned yn mlaen, nid oes neb yn ymddangos i ofalu na gwybod.

24, Gartref etto. Meddwl yn ddifrifol y dylem wneyd cais at ein gweinidog i *ymadael*.

Hyd yma yr aeth, a'r neb a'i harddelo, ac a dalo am ei godi, a'i caiff.

Trebanos. W.

GWROLDEB NANSI.

Fy nghyfeillion ieuainc, rhoddwch ffrwyn i'ch dychymyg dynu darlun o dŷ bychan, diaddurn, ar lechwedd bryn coediog, o'r hwn le y gellir cael golwg glir ar bont y gledrffordd sydd yn crogi dros y gornant chwern a ddirwyna ei thaith trwy y dyffryn obry. Adnabyddir y nant hon wrth yr enw "Y Ffrwd," ac mae'n llifo trwy ganolbarth un o Siroedd Cymru. Gerllaw iddi y llifa afon fawr a phwysig y Towy. Nid yw y tŷ bychan hwn neppell oddiwrth y brif gledrffordd sydd yn hwylusu trafnidiaeth yr ardal. Y mae'r afonydd mor droellog yn y gymmydogaeth hon, fel y croesir hwy gan un bont ar hugain yn y pellder bychan o bum' milldir.

Y llecyn neillduedig hwn yw cartrefle Mrs. Edwards a'i dwy ferch, a Nansi, "genethig ddeunaw oed," yw yr henaf. Pan nad oedd Nansi ond tair blwydd oed, darfu i'w thad ymsefydlu yn y man gwyllt ac unig hwn, a gwrteithio, yn mhen ychydig amser, fferm daclus iddo ei hun. Efe oedd y gwyliedydd nosawl ffyddlon a dewr ar y rhan beryglus hon o'r gledrffordd am lawer blwyddyn, byth yn gwamalu mewn dyledswydd yn nghanol yr ystormydd a'r corwyntoedd mwyaf ofnadwy. Ond darfu i hin annghydnaws y nos niweidio ei iechyd, ac ychydig flynyddau'n ol bu farw.

Ni ddaeth y tristwch hwn wrtho'i hun. Ryw ddiwrnod, cafwyd y mab, ar yr hwn y gorphwysai gobeithion mwyaf dysglaer y fam weddw, wedi boddi yn y ffrwd. Cwrddodd Nansi, yr hon oedd 'nawr tua phymtheg oed, mewn yspryd gwrol a'r amgylchiad a fygythiai lethu ei mam, a'u gadael i gyd yn ddigartref. Ymgymmerodd a gofal y tipyn fferm. Codai yn foreu a gweithiai yn galed. Hauai a chynauafai, a thriniai yn ofalus yr ychydig dda ar y rhai yr oedd eu cynnaliaeth bron i gyd yn ymddybynu, a dechreuodd y teulu yn fuan ymddiried i ofal medrus yr eneth ieuanc.

Yn fuan yn mis Gorphenaf, 1881, ymwelodd storm ddychrynllyd â'r rhan hon o'r wlad. Ymchwyddai y nentydd bychain yn afonydd, a gorchuddiai'r afonydd yr holl wastadedd. Gwnawd difrod mawr ar feddiant y gledrffordd. Cafodd un-ar-ddeg o bontydd naill ai eu dinystrio'n hollol neu eu niweidio'n drwm.

Ar nos Gorphenaf 6, cyn i waith dinystriol y llif gael ei gwblhau, a chyn i'r gledrffordd gael ei hollol guddio gan y diluw, cafodd peiriannydd o'r enw John Jones orchymyn i redeg peiriant o un orsaf i un arall, er mwyn gweled a oedd rhyw ran o'r llinell wedi ei golchi ffwrdd.

Tua chanol nos mae'n cychwyn, yn araf ac yn ochelgar, yn edrych am bob arwydd o berygl â llygad llym. Croesir y Towy yn ddyogel, a dynesa'r peiriant at y Ffrwd ac erys. Dysgwylia'r peiriannydd hyd nes daw'r arwydd iddo fod y ffordd yn glir, fod y bont yn ddyogel, ac yna ä yn mlaen. Mae wedi croesi canol y bont, pan yn ddisymwth mae'r coed gyda thrwst dychrynllyd yn rhoi ffordd, a hyrddir y peiriant a'r dynion yn nghanol y caddug dudew i lawr i'r dyfroedd berwedig.

Yn dianc megys drwy wyrth rhag marwolaeth ddisyfyd, ceisia Jones yn ofer nofio i "le diwall." Teflir ef o'r diwedd ar garn o gerryg yn nghanol y berw, ac yno y gorwedda, yn cael ei amgylchynu o bob tu gan ddwfr. Mae ei lais, yn galw am gymhorth, yn adsain drwy gaddug y nos. Ond pwy a ddaw ar y fath adeg i'r lle unig hwnw? Ymferwa'r diluw oddiamgylch iddo, a dichon y cludir ef i ffwrdd cyn y boreu. Ac mae amser yr *express train* bron ar ben! O! na allai ei arbed rhag dinystr! Ond amgauir ef mewn tywyllwch. Gall un cam ei blymio i'r dyfnderoedd pe gallai roddi hyd y nod y cam hwnw.

Ond yn ddisymwth fe wel oleuni yn pelydru drwy y coedydd tewion; mae yn diolch i Dduw, ac yn gwaeddu am gymhorth. Yn fuan, trwy oleuni gwelw llusern fach, fe wel wyneb geneth yn rhythu drwy ddarnau briwedig y bont i'r diluw odditani, ac mae llais clir yn treiddio drwy y gwyll.

"Pwy sy 'na? B'le 'rych chi?"

"John Jones, *engineer* Rhif 11," oedd yr atebiad a ddaeth yn ol drwy drwst y dyfroedd rhyferthwyol. "Mae'r bont wedi tori! Mae'r *express* ar ddod? Pwy ych chi?"

"Nansi Edwards," oedd yr atebiad buan.

Ac yma ni awn yn ol, a dywedwn wrthych sut y cyrhaeddodd Nansi y bont. Yn hwyr ar nos y storm ofnadwy, yr oedd wedi myned i lawr i'r bryn hyd at yr ystabl, ac wrth ei gweled yn llanw yn gyflym o ddwfr, gollyngodd yr anifeiliaid yn rhydd, fel y gallent fyned i dir uwch. Gallai glywed y dyfroedd yn curo yn erbyn y bont, a theimlai yn sicr nas gallasai sefyll. Dychwelodd i'r ty, a chyda gwyneb gwelw, ond calon ddiofn, dywedodd wrth ei mam fod yn rhaid iddi fyned i godi'r waedd fod y bont yn syrthio.

Tra yn siarad â'i mam, daeth trwst—cnul echrydus o gloch y peiriant—swn oedd yn dweyd am gyflafan. Cymmerodd Nansi lusern mwnwr a hongiai yn y ty, a chan ffarwelio â'i mam a'i chwaer, aeth allan i'r dymhestl.

Gorchuddiai'r llif yr holl wlad, gan wneyd y llwybrau yn beryglus i'w troedio. Yr oedd ganddi yn agos i filldir o ffordd, fel y bu yn gryn drafferth iddi gyrhaedd y bont doredig.

Ni phetrusodd Nansi eiliad pan y deallodd oddiwrth Jones fod cerbydres yn brysio i ddinystr. Rhaid iddi fyned a rhoddi cynnorthwy i'r gyriedydd. Cychwynodd ar unwaith i'w thaith beryglus. Gan ddylyn y llwybr, ceisiodd balfalu ei ffordd hyd at y bont fawr a grogai dros y Towy, ddeg troedfedd ar hugain uwchben y dylif. Ar berygl ei bywyd, yr oedd yn rhaid iddi neidio o ddarn i ddarn, heb ofalu am y ffrwd ddigofus a ymferwai dani. Ond ni arosodd Nansi eiliad rhag ofn perygl. Yr oedd yn barod ar y bont, pan yn ddisymwth y diffoddodd goleuni ei llusern fach, a gadawyd hi mewn duwch yn nghanol perygl-on. Y cam lleiaf o'i le fyddai yn angeu iddi, ond dywedai wrthi ei hun, "Yr *express*, yr *express!*" ac ni ddiffygia.

Mae Duw yn tywys camrau yr eneth wrol, ac mae yn croesi yn ddyogel. Yna yn gyflymach hi red ar hyd y llinell hyd at yr orsaf. Gwaedda fod y bont wedi tori, a gyrir arwyddion buain o berygl i'r

cerbydau ag sydd yn rhuthro at y gagendor ofnadwy. Nid yw gwaith Nansi wedi ei orphen etto. Aeth haid o wyr cedyrn yn ol gyda hi i fan y gyflafan, ac arweiniodd hwy drwy leoedd dyrus i'r lle yr oedd adfeilion y gerbydres.

Erbyn pump o'r gloch yn y boreu, rhyddheir y peiriannydd o'i sefyllfa beryglus; ac yna mae Nansi, yn flin, yn garpiog, ac yn wlyb i'r croen, yn myned yn ol i'w chartref isel.

Darfu i weithred wrol Nansi eonill iddi gyfeillion sydd yn gwneyd bywyd yn esmwythach ac yn ddysgleiriach iddi; ond ei gwobr oreu yw yr ymwybodolrwydd fod ei gwroldeb parod wedi achub bywydau gwerthfawr yn y storm ofnadwy hono.

Y CYRDDAU CHWARTEROL.

Cynnaliwyd cyrddau y Pasc yn Nghapel y Nottais dyddiau Mercher a Iau, Ebrill 24 a 25, ac yr oedd yno gynnulliadau rhagorol o weinidogion a chyfeillion o bell ac agos. Dechreuwyd y gweithrediadau nos Fercher gan Mr. J. Fisher Jones, gwr ieuanc ymroddgar a defnyddiol, a brawd i'r Parch. T. Lloyd Jones, a phregethwyd gan y Parchn. David Evans, Cribin, ac R. J. Jones, M.A., Aberdar.

Yr oedd y cyrddau yn parhau drwy ddydd Iau. Dechreuwyd y cyfarfod y boreu hwn mewn modd effeithiol iawn gan y Parch. J. Davies, Alltyplaca, a phregethwyd pregeth brydferth iawn ar Wyl y Pasc gan y Parch. Owen J. Jones, Caerdydd. Wedi olrain ei tharddiad, dywedodd fod yr wyl hon i ni yn wledd o lawenydd, o ffydd yn Nuw yn awr fel awdwr bywyd, ac o ffydd yn mharhad bywyd yr enaid y tu hwnt i'r bedd. Ar ei ol traddododd y Parch. Gynghorwr Thomas Thomas, y pregethwr pennodedig, ei bregeth. Dewisodd ei destyn o Jeremiah vi. 16, a thynodd amryw wersi gwerthfawr oddiwrth y geiriau. Dywedodd mai gwir amcan bywyd yma, neu yn ol llaw, oedd cael gorphwysfa i'n heneidiau. Teimla pob enwad crefyddol mai ei ffordd ef yn unig a gynnorthwya ddynion at yr amcan hwnw, ond annogai y pregethwr ei wrandawyr i "sefyll ar y ffyrdd, a gofyn am yr hen lwybrau," a daliai fod yr hen lwybrau hyny i'w cael y tu ol a thu hwnt i anffaeledigrwydd proffesedig yr enwadau, sef mewn ufudd-dod personol i addysgiadau Iesu Grist. Wrth ddiweddu dywedai Mr. Thomas ei fod yn llawenhau wrth weled y rhydd-ymofyniad sydd yn hynodi duwinyddion blaenaf y gwahanol enwadau y dyddiau hyn.

Yn y prydnawn cynnaliwyd y gynnadledd. Aeth y Parch. H. Robinson (B.) drwy y rhan arweiniol o'r gwasanaeth, a siaradodd y Parch. Henadur John Davies ar y pwnc, "Trefniant Eglwysig." Yr oedd ei sylwadau ef ac eiddo y siaradwyr ereill yn ddyddorol iawn. Beirniadwyd cynllun Dr. Martineau, ac hyd nes y deuir o hyd i ryw gynllun gweithiadwy, cynnygiodd Mr. Davies yr awgrym syml fod pob un i wneyd ei oreu, ac wedi nodi allan y gwahanol ffyrdd i wneyd hyn, dy-

wedodd, "Os nad yw hyn yn ddigon, ychwanegwch ato." Terfynodd y Parch. E. W. Lloyd y gynnadledd drwy weddi.

Dechreuwyd gwasanaeth yr hwyr gan y Parch. J. Hathren Davies, a phregethodd y Parch. J. J. George bregeth nerthol a hyawdl, yr hon roddodd foddlonrwydd mawr. Dylynwyd ef gan y Parch. John Davies, yr hwn bregethodd yn Gymraeg oddiar 1 Pedr iv. 13. Yr oedd yn bregeth ardderchog, a theimlem fod Duw wedi datguddio ei Hun i'w was. Gwnaeth pawb o'r cyfeillion cyssylltiedig â'r capel eu goreu i wneyd y cynnulliadau yn llwyddiannus, ac yr ydym yn dra diolchgar i gyfeillion eglwysi ereill am fod eu drysau yn agored i rai pellenig a ddaethant i ymweled â ni. Yr oedd y gweinidogion canlynol hefyd yn bresenol:—Y Parchn. W. Parry, Isaac Thomas (M.C.), a D. Evans (A.) Hefyd, y Cynghorwr Edward Plummer, a Mr. D. J. Williams, myfyriwr.

CWPANAID O DDWFR OER.

Ar yr 22ain o Fedi, 1586, fel yr oedd Syr Philip Sidney yn cael ei gludo'n glwyfedig oddiar faes brwydr Zutphen, a phan bron ymollwng i lewyg o ddiffyg gwaed, gofynodd am ddwfr. Pan oedd y llestr â'r dwfr yn cael ei osod wrth ei wefusau, gwelodd filwr a ymddangosai ar fin trengu, yn edrych arno fel pe mewn angen tost; rhoddodd Syr Philip i fyny yn union, gan ddywedyd, "Mae angen y dyn hyna yn fwy nag yw fy angen I." Yn y cyffredin, fe adroddir y weithred hon fel un ganmoladwy iawn; ond yn marn dosparth o dduwinyddion, ni wnaiff bwyso pluen yn y fantol ar ddydd y cyfrif mawr.

Yn Efengyl Matthew (x. 42), yr ydym yn darllen geiriau fel hyn: "A phwy bynag a roddo i'w yfed i un o'r rhai bychain hyn phiolaid o ddwfr oer yn unig yn enw dysgybl, yn wir meddaf i chwi, Ni chyll efe ei wobr." Yn ddiamheu fod y geiriau hyn yn rhyfedd. Ar ba beth y mae gwerth y weithred yn dybynu? Nid oes a amheua fod a fyno yr amcan neu y cymhelliad *(motive)* yn fawr a gwerth gweithred. Yr oedd Hartley Coleridge o'r farn na fyddai yr Iesu ddim yn rhyw fanwl iawn yn edrych am gyssylltiad *ei enw* ef ag unrhyw weithred gymmwynasgar. Yna, beth feddylir wrth y geiriau "yn enw dysgybl?"

Dyma eiriau Livermore mewn cyssylltiad â'r adnod: "Mae gwerth gweithredoedd dynol yn dybynu ar yr amcan gyda'r hwn y cyflawnir hwy, ac y mae'r weithred leiaf, os cyflawnir hi, gyda chyfeiriad at ewyllys Duw, dan deimlad o ddyledswydd, yn fwy anrhydeddus ac yn fwy teilwng o wobr na'r fwyaf a gyflawnir gydag amcanion hunangar." *Gyda chyfeiriad at ewyllys Duw?* A ydym i ystyried fod dyn yn pwyso'r pwnc, ac yn edrych at y wobr dybiedig, cyn cyflawnu ei weithred? A ydyw llais dyledswydd yn gofyn fod dyn yn myned trwy ryw ymresymiad hir cyn gweithredu? Rhyfedd i mi mor wahanol yr

edrycha gwahanol ddynion ar yr un peth. Yr oedd dyn wedi syrthio i'r môr dros fwrdd llong, ac yr oedd morwr yn barod i neidio ar ei ol i'w achub, pan y gofynodd trydydd person iddo a oedd efe yn barod i farw. I mi, nid ymddengys llais y trydydd person ond llais Satan, y temtiwr; ac nis gallaf edrych ar ateb ac ymddygiad y morwr yn achub ei gyd-ddyn ond eiddo arwr o'r radd flaenaf. Dyma ei ateb: "Ni fyddaf yn fwy parod i farw trwy esgeuluso fy nyledswydd yn awr." Ar hyny, rhoddodd y naid i ganol y dyfroedd mawrion. Meddai duwinydd ieuanc, "Nid wyf yn gweled y byddai gweithred y morwr yn un help iddo fyned i'r nefoedd." 'Alla' inau ddim llai na meddwl fod y nefoedd fawr yn cymmeradwyo! Ond beth am y geiriau, "yn enw dysgybl?" Nid o weithredoedd, meddai Paul, ac nid heb weithredoedd yn sicr, meddai Iago. Ac felly, daw yr hen ddadl i fyny, er gwaethaf H. Coleridge: Rhoddwch y cwpan o ddwfr oer lle byddo angen, ac nid edrych yr Iesu am yr enw. Ond fel hyn y dywed hen lyfr cyfarwyddyd yr Eglwys, "Am weithredoedd *cyn* gras, nid ydym yn amheu nad oes natur pechod ynddynt." Beth bynag fyddo dyn yn ei gyflawnu cyn cael gras, y mae natur pechod ar ei gyflawniadau; ond wedi cael gras, mae holl natur y weithred yn newid. Os syrthia'r pechadur wedi cael gras, mae yn syrthio i godi yn nes i'r nefoedd. Ac o ba le yr ym yn myned i edrych am y gras hwnw? Nis ceir o'i geisio. Rhodd oruwchnaturiol oddiwrth Dduw ydyw, heb un ystyriaeth o dda neu o ddrwg dyn. Nid oes dim *a wna* dyn a ddichon ei sicrhau iddo. Rhyfedd, onide, rhyfedd! Ac etto, y mae dyn yn golledig, oni chaiff ef! Nid "Pa beth bynag a hauo dyn," oni fydd wedi cael gras yn mlaenllaw.

A ydych yn credu peth fel hyn, gyfeillion? Yr ydwyf yn credu fy hunan fod yn rhaid i ni weithredu o amcan cywir. Ond nis gallaf yn fy myw â chredu y byddaf yn golledig o herwydd unrhyw ddiffyg ag oedd i mi yn ddiffyg anocheladwy. Os yw y gras a sonir am dano yn angenrheidiol i iechydwriaeth, yr wyf yn credu fod y Tad Goreu wedi ei drefnu i fod yn agored i bawb ei gael ar ryw delerau. Ni fydd y Tad yn ceisio oddiwrth ddyn ond yr hyn a allo dyn; nid yw yn bossibl y gall Efe gospi am yr hyn sydd anocheladwy. Nid wyf yn credu fod Duw yn gofyn oddiwrthym ddim nad yw yn well i ni ein hunain ei roddi nâ pheidio ei roddi. Y peth ydym ydyw y pwnc mawr—nid y peth sydd genym. Ein cymmeriad ydyw y peth pwysig, ac y mae hwnw genym i wneuthur ag ef fel y mynwn—*to make or mar*, ys dywed y Sais. Nid oes un cyfrifiad o rinwedd arall a wna help yn absenoldeb ein rhinwedd personol ein hunain. Nac ofner "gweithredoedd da," 'does dim perygl cael gormod o honynt, ac y maent hwy yn sicr o dalu un wns ar bymtheg yn y pwys. Nid rhyw wisg allanol, nid rhyw broffes sych, nid llafar geiriau ydyw crefydd; ac o ran hyny nid crefydd chwaith ydyw gweithredoedd da o honynt eu hunain; ond gobeithiwn eu bod yn ffrwyth crefydd. Yr Arglwydd ei Hunan yn unig a all fesur gwerth gweithred. Dyn a farna wrth yr olwg, ond Duw a farna farn gyfiawn.

NODYNAU GWASGAROG.

PWNC Y TREFNIANT EGLWYSIG.

Ymddengys fod y pwnc hwn i gael ei drin yn y cyfarfod blynyddol nesaf etto. Felly, ceir digon o ymdrafodaeth arno fodd bynag. Ai ni fydd yn bossibl gwneyd rhywbeth ar ol y gynnadledd i geisio gwneyd rhywfath o drefn mewn cyssylltiad a'n heglwysi Cymreig? Y mae eisieu adfywio'r hen gymdeithas Undodaidd. A ellir ddim gwneyd rhywbeth yn y cyfeiriad hwn? Y mae hwn yn bwnc pwysig i'n bodolaeth fel enwad, a gobeithio y caiff ryw gymmaint o sylw yn y cyfarfod yn y Cwrtnewydd.

RHAGOROL, CEREDIGION!

Dydd Gwener diweddaf, yn Nghynghor Sirol Ceredigion, pasiwyd penderfyniad yn condemnio talu traul codiad y Degwm gan *bolicemen* yr Eglwys Sefydledig yn Nghymru allan o'r trethi. Dywedai y cynnygydd, Mr. J. M. Evans, Llanarth, 'Na fuasai unrhyw Annghydffurfiwr goleuedig a chydwybodol yn talu degwm heb deimlo ei fod yn llwfrddyn na feddai ddigon o wroldeb i amddiffyn ei olygiadau.' Iaith gref oedd hon yn ddiau, a phe buasai y boneddwr dewr a diofn yn byw dan balfau nai y Prif Weinidog, cawsai ei wallt wedi ei gropio a'i farf wedi ei heillio wrth y croen ar draul ei Mawrhydi y Germanes o Windsor. '*Go it*,' Mr. Evans; mae eisieu rhagor o'ch bath chwi yn y byd. Ysguber gwyneb y ddaear o'r *humbugs* chwech ugain yn y cant, a llanwer hi o fechgyn a fedrant sefyll i fyny dros iawnderau dyn fel y Cardi o Lanarth. '*Go it*,' Mr. Evans, a dangoswch i ormeswyr y wlad—yr hen *gorchmen* Toriaidd—fod yr awenau, o'r diwedd, wedi dyfod i ddwylaw y bobl—asgwrn a gewin y byd. '*Go it*,' Mr. Evans, a gwnewch Cardiland fel Ffwrn Babilon Arwerthwyr a Bwmbailiaid yr Eglwys. Llwyddiant!—*O'r G. Cymreig.*

CYMMANFA GERDDOROL UNDODIAID RHAN UCHAF CEREDIGION.

Mae y gymmanfa uchod bron wrth y drws eleni etto, gan nad pa un ai parod ai anmharod yr ydym i'w chroesawu. Gobeithio fod ein heglwysi wedi ac yn gweithio yn egniol ar y rhagdrefn, ac y cenir y tonau yn hwylus—nid yn y gymmanfa yn unig, ond yn y capeli yn y dyfodol. Hefyd, da chwi, gantorion, cofiwch am y *rehearsals* sydd i fod y Sul o flaen y gymmanfa, sef Mehefin yr 16eg, pryd y bydd ein harweinydd, y Parch. W. J. Davies, yn talu ymweliad â'r gwahanol gapeli yn ystod y dydd. (Gweler nodiadau ar y rhagdrefn.) Gwneled yr arweinydd-

ion lleol ymdrech i gael gan eu corau i ddyfod yn gryno ac mewn pryd i gyfarfod â Mr. Davies. Hefyd, bydded i'r gweinidogion fod cystal â chymmeryd ychydig ddyddordeb yn y gwaith, trwy gyhoeddi a cheisio dylanwadu ar bawb i roddi eu presenoldeb yn y *rehearsals*, fel y byddo y bywiogrwydd a'r brwdfrydedd mwyaf yn cael ei arddangos yn yr oll o'r gwaith. Trwy hyny bydd gobaith am gael cymmanfa luosog, a chanu fyddo yn tueddu i fod yn deilwng o blant yn dyrchafu mawl i'w Tad Nefol.

W. Williams, *Ysg.*

UWCHAFIAETH DYLEDSWYDD.

Nid wyf yn dweyd y dylech fod yn amddifad o ddyheadau uchel a gobeithion difrifol, yn cynnwys possiblrwydd mwy a gobaith mwy am fawredd a daioni. I'r gwrthwyneb, yr wyf yn ceisio yn ddifrifol i chwi feithrin y fath feddylddrychau uchel ag sydd yn tueddu yn neillduol i wneyd bywyd yn rhagorol; ond y mae yn fwy i'r pwrpas i chwi fyned allan at eich llafur dyddiol, gan ymfoddloni i gyflawnu yr hyn ydych yn argyhoeddedig, ac yn gwybod, mai eich dyledswydd yw ei wneyd yn y fath yspryd ag i'w wahanu oddiwrth bob caledi neu lymder ag sydd wedi cael ei drawsffurfio i'ch hyfrydwch uchaf. Cymmerwch arian am eich gwaith, ond na weithiwch er mwyn arian. Beth os y gall eich cynnyrch fod o fwy o werth nâ'ch tâl? Gellir gwneyd llafur yn siriol a gwerthfawr drwy ymdrech i'w wneyd yn ffyddlon a da, heb un meddwl am wobr, ond yn yr amgyffrediad ei fod, gan nad pa mor isel bynag y bydd, er gwellhad dyn. Os ydych yn gwneyd esgid, na feddyliwch am y tâl all ddyfod i chwi fel eich gwobr, ond am y cysur a'r boddhad a fydd i'ch gwaith, wedi ei gyflawnu yn dda, roddi i ryw wisgwr anadnabyddus. Os adeiledwch dy, adeiledwch ef yn dda, o herwydd y mae i fod yn gartref i ryw ddyn, yn yr hwn y bydd hanes mwy siriol yn gynnwysedig oblegyd eich crefftwaith chwi. Os ydych yn ysgrifenu llyfr, na feddyliwch am gyfraith meddiant o lyfr, ond am y sawl allant gael eu hysprydoli i feddwl gwell a bywyd uwch drwy ei eiriau. Peidiwch achwyn ac ysgyrnygu oblegyd eich rhan annedwydd, ond derbyniwch hi er y gall fod yn isel a dinod, gan ei bod yn bossibl glanhau neu garthu cwter gyda hunan-barch ac urddasolrwydd dynol, neu dduo a dysgleirio esgid gyda brwdfrydedd crefydd.

Pentecost.

Y peth tristaf mewn cyssylltiad ag egwyddor eglwys wladol yw ei bod yn ymrestru ac yn ymddangos fel yn rhestru Cristnogaeth yn erbyn pob mudiad gwleidyddol a ymddengys megys yn addaw bendith i ddynolryw.

Baldwin Brown.

Nis gall fod mwy o gymmysgfa ddiobaith nag i gymmysgu yr Eglwys Gristnogol â'r eglwys wladol fel pe byddent ddarnau cyfystyr.

H. W. Parkinson.

Ebe'r hen John Wyckliffe, Os bydd i'r eglwysi wneuthur cam ddefnydd o'u gwaddoliadau, mae yr awdurdodau yn rhwym o'u cymmeryd oddiwrthynt.

Manion a Hanesion.

DOWLAIS.—Y mae yn bleser genym gyhoeddi y ffaith fod ein heglwys yn y lle hwn wedi talu y geiniog ddiweddaf o'i dyled. Dymuna y Parch. W. J. Davies, y gweinidog, ddatgan ei ddiolchgarwch i bawb o'i gyfeillion am eu cynnorthwy iddo glirio y ddyled cyn ei fod yn ymadael am Sir Aberteifi. Dymunwn lwyddiant o'n calon i'r eglwys yn y dyfodol.

GELLIONEN.—Dydd Iau, Mai 2, cynnaliodd Eglwys Gellionen ei chyngherdd flynyddol yn y Concert Hall, Pontardawe, pan yr oedd yr ystafell, gydag eithrio ychydig o'r blaenseddau, yn llawn. Yr *Artistes* eleni oeddynt, *Soprano*, Llinos Rhondda; *Contralto*, Miss Williams, Alltwen; *Tenor*, Parch. W. J. Davies; *Baritone*, Mr. George, Morriston, Mr. Jones, a'r *Cadoxton and Neath United Glee Party*. Perdonydd, Mr. Howells, Maesgwyn, Aberdar. Y darnau encorwyd oeddynt "Y Gwcw" (Llinos Rhondda); "The Rose will cease to blow" (Mr. Davies); "Y Tren" (Mr. George); "Uncle John" (Miss Williams); "Y Clychau" (Mr. Howells); "Y Wers Solffa" (Llinos Rhondda a Mr. Davies). Barn y bobl oedd na fu gwell cyngherdd yn Mhontardawe er ys blynyddau. Llywyddodd Mr. Samuel, Tan-yr-Allt, yn fedrus iawn. Dymuna y gweinidog (Parch. W. J. Davies) hyspysu ei fod yn ceisio dyddimu, os yn bossibl, y ddyled sydd yn aros ar Gellionen cyn y tyr ei gyssylltiad â'r eglwys uchod. Derbynir unrhyw roddion gyda diolchgarwch.

Da genym gael ar ddeall fod y brawd ieuanc talentog, Mr. Priestley Evans, mab y diweddar Barch. Owen Evans, wedi derbyn ac wedi ateb i alwad unfrydol, i fod yn weinidog ar eglwys Undodaidd Loughborough. Bwriada ddechreu ar ei weinidogaeth yn mis Medi. Llwyddiant mawr iddo yn ei gylch newydd yw dymuniad—N.N.S.

Blin yw clywed fod Undodiaeth Cymru ar gael colled dirfawr trwy fynediad y Parch. J. E. Manning, M.A., o Abertawe, i fod yn weinidog Upper Chapel, Sheffield. Mae y *S. W. Daily News*, wrth nodi'r ffaith o'i ymadawiad o Abertawe, yn talu teyrnged uchel o barch i Mr. Manning, ac yn dweyd na all Abertawe ddim hebgor y fath ddyn. Mae cewri wedi llanw y pwlpud yr ä Mr. Manning iddo, sef y Parchn. Ddr. Vance Smith, Brooke Herford, ac Eli Fay, ac yr ydym yn hyderus y gwna Mr. Manning olynydd teilwng iddynt. Eiddunwn Duw yn rhwydd iddo.

CRIBIN.—Yn yr arholiad blynyddol cyssylltiedig â Chymdeithas Ysgolion Sul Undodaidd Manchester, yr hwn a gynnaliwyd ar y laf o Ebrill, pasiodd naw o'r ysgol uchod fel y canlyn:—*Dosparth anrhydeddus*: David Evans, Elizabeth Jenkins, Daniel Jones, a John Jones. *Dosparth cyntaf*: Evan Davies, James Thomas, ac Evan Jones. *Yr ail ddosparth*: David Jones a Martha Evans. Pwnc yr arholiad oedd anianyddiaeth y corff (*physiology*).

TREFNIANT EGLWYSIG.—Yn y cwrdd chwarter diweddaf, cynnygiodd y Parch. J. Hathren Davies, ac eiliodd y Parch. John Davies, a phasiwyd yn unfrydol: "Ein bod ni, Weinidogion Undodaidd Deheudir Cymru, yn diolch yn galonog i Dr. Martineau am y cynllun trefniadol a gyflwynodd i sylw yr enwad Undodaidd; ond dymunwn awgrymu fod y cynllun hwnw, yn ei gyfaddasder at Gymru, yn ddiffygiol yn y manylion canlynol:—(1) Fod y tâl o 6ch. yr aelod ar y cyfartaledd yn rhy uchel. (2) Dymunwn gadw yr enw 'Undodaidd,' neu unrhyw enw arall ag yr adnabyddir ein heglwysi yn bresenol wrtho, ac yr ydym yn wrthwynebol i'r enw cyffredinol 'Henadurol.'" (3) Nad yw Gradd o Brif Ysgol, er yn ddymunol, yn hanfodol er gwneyd gweinidog da. Carwn roi ar ddeall y cydnabyddwn ni yn llawen, ac y byddwn yn barod i helpu unrhyw gynllun a duedda i ychwanegu at les cyffredinol ac at dyfiant ysprydol ein heglwysi, ond yr ydym yn awyddus i bob eglwys fwynhau ei rhyddid."

CEFNCOED.—Mae'n dda genym glywed fod y Parch. J. Hathren Davies ar ben y *poll* eleni etto yn Etholiad Bwrdd Ysgol y

Faenor. Dyma'r drydedd waith iddo fod ar y blaen. Nid pawb all ymffrostio mewn buddugoliaeth o'r fath deirgwaith o'r bron. Mr. Davies sydd yn cario pen blaen y Bwrdd, a Rector y Plwyf yn cario'r gynffon.—M. S.

Marwgofion.

Mawrth 21, yn 6 mis oed, Mary Ann, anwyl ferch Thomas a Mary Jones, Cross Hands, Cwrtnewydd. Claddwyd yn mynwent Capelybryn y Sadwrn canlynol, pan y gwasanaethwyd gan y gweinidog.

Ebrill 4, yn 67 mlwydd oed, Elizabeth Evans, priod Evan Evans, Saer, Parkneuaddfach, Ciliau Aeron. Goddefodd ei hir gystudd yn dawel mewn llwyr ymostyngiad i drefn ddoeth ei Duw. Bu yn aelod teilwng o'i phroffes am lawer o flynyddoedd yn nghapel y Ciliau. Gadawodd briod, chwech mab a dwy ferch, nid yn unig i deimlo hiraeth ar ei hol ond colled mawr hefyd. Bydded iddynt gymmeryd goleuni yr Efengyl i'w tywys, a'i gobeithion i'w cysuro yn eu galar. Ar ddydd yr angladd gwasanaethwyd yn y tŷ gan Wm. Rees, Rhydygwin, a chludwyd ei gweddillion gan dorf luosog o gyfeillion a pherthynasau i fynwent y plwyf lle ei claddwyd mewn gwir ddyogel obaith am adgyfodiad i fywyd gwell.

Dydd Mawrth, Mai 7, Mr. Griffith Jones, Saer Maen, Tracynon, Aberdar, yn 62 mlwydd oed. Y dydd Sadwrn canlynol, ymgasglodd tyrfa luosog i hebrwng ei weddillion marwol i Cemetery Aberdar, pan y gweinyddwyd gan y Parchn. R. J. Jones, M.A., E. W. Lloyd, Cwmbach, a J. J. George, Aberdar. Cafodd y cyfaill ymadawedig ei ddwyn i fyny yn Ystrad, Ceredigion, a hanai o hen deuluoedd Undodaidd parchus yn y lle prydferth hwnw. Undodwr gwresog o rau barn oedd yntau hefyd, ac yr oedd yn dra hyddysg yn egwyddorion gwahaniaethol yr Enwad. Meddai gof bywiog a gallu ymresymiadol y tu hwnt i'r cyffredin. Oddeutu 35 mlynedd yn ol symmudodd i fyw i Aberdar, yn yr hwn le y treuliodd y gweddill o'i oes. Cyrhaeddodd gryn lawer o enwogrwydd yn y cymmydogaethau hyn fel cymdeithaswr. Perthynai i'r Odyddion, yr Iforiaid, a Sefydliad Dyngarol Merthyr. Bu yn offerynol i agor chwech o gyfrinfaoedd perthynol i'r gymdeithas ddiweddaf, sef, Tywysoges Glan Cynon, Maesyffynnon, Seren Heddwch, Dr. Jones, Gwrgant, a'r Dywysoges Ann. Gwasanaethodd y gwahanol swyddau yn y gyfrinfa gyda deheurwydd a boddlonrwydd cyffredinol ei frodyr. Yn y flwyddyn 1875, anrhegwyd ef gan ei gyfrinfa a darlun paentiedig o hono ei hun a'i deulu, dan yr hwn mae yr ysgrifen ganlynol:—

"Presented by the members of the Loyal Llewelyn Lodge, of the Merthyr Unity, Philanthropic Institution, to brother Griffith Jones, P.G.M., for his meritorious service to the Lodge."

Cododd i fyny ei blant mewn modd gofalus iawn, gan roddi iddynt addysg foreuol dda. Un o'r cyfryw yw y Parch. T. Lloyd Jones, gweinidog yr Undodiaid Seisnig yn L'erpwl. Yr Arglwydd a fyddo yn nodded i'r teulu galarus yn eu trallod, yw dymuniad—P.P.G.M. yn y *Gweithiwr Cymreig.*

Mai 7, Hannah Jones, Penlanganol, Cribin, yn 27 mlwydd oed. Yr oedd y chwaer ieuanc hon wedi bod yn aelod ffyddlon yn nghapel y Cribin hyd nes y lluddiwyd hi gan yr afiechyd annymunol a ddaeth i'w chyfarfod er's ychydig amser yn ol. Yr oedd yn wastad yn gwneyd yr hyn a allai, ac nid oedd ei ffyddlondeb byth yn pallu. Ac fe deimlir colled a hiraeth ar ei hol gan bawb a'i hadnabyddent. Gobeithio na fydd i'w mam a'i brodyr alaru yn ormodol ar ei hol. Y mae ffyrdd Rhagluniaeth yn fynych yn dywyll; ac y mae dafnau chwerwon yn cael eu harllwys i'n cwpanau yn fynych. Ond yn nghanol yr oll nid oes genym ond ymddiried fod yr oll er daioni yn y pen draw. Gweinyddwyd yn y tŷ ac yn y capel gan y gweinidog, ac wrth y drws ac ar lan y bedd gan y Parchn. J. Davies a W. Rees.

Mai 16, yn 17 mlwydd oed, Benjamin Davies, Nantygwragedd, ger Llanwnen, ar ol cystudd maith. Claddwyd ef yn mynwent Eglwys Llanwnen pryd y gweinyddwyd gan yr offeiriad.

Jenkin Howell, Argraffydd, &c., Aberdar.

Barn y Cyhoedd am George's Pills.

DYFYNIADAU O LYTHYRAU.

"Gwerthfawrocach ynt i mi nâ'r aur coeth,—arbedasant fy mywyd."

"Yr oedd pob meddyg yn ystyried fy iechyd yn ddiobaith, felly Syr, ar ol i bawb fethu, chwi a'm gwnaethoch yn holl iach."

"Clywais ganmoliaeth uchel i'ch Peleni, ond fy marn ddiduedd yw, na fynegwyd 'mo'r hanner."

"Cyn cymmeryd eich Pills nis gallwn gerdded gan y poen yn fy ymysgaroedd, ond yn awr, er fy mod yn 67 mlwydd oed, yr wyf yn teimlo fel pe na bawn ond 30."

"Yr ydwyf yn canmol eich Peleni wrth fy holl gwsmeriaid, oblegyd y maent yn wir dda."

"Ni welwyd meddyginiaeth fel yr eiddoch chwi erioed o'r blaen yn ein gwlad."

"Cynghorem bawb—o herwydd y ffug-beleni sydd yn y farchnad—i fod ar eu gwyliadwraeth pan yn prynu GEORGE'S PILLS."

"Yr oeddwn yn methu sefyll gan bendro, ac yr oedd *swashes* o ddwfr sur yn dyfod i fy ngenau. Ni chymmerais ond un blychaid o'ch Peleni cyn fy llwyr iachau."

"Yr oedd trymder anarferol yn fy nal ar ol bwyta, a chawn anesmwythder y nos gan freuddwydion brawychus; ac mae fy mhoenau erbyn hyn yn *things of the past.*"

"Er i mi wneyd aml brofion o alluoedd meddygon, yr oedd y cwbl yn ofer hyd i mi wneyd prawf o'ch Peleni chwi."

"Yr ydwyf yn dymuno gwneyd y gwellhad hwn yn hyspys er calondid i chwi, er lles i ereill, ac er clod i'r Goruchaf."

"Y mae llawer o siarad yma (California) am eich Peleni; mawr y lles y maent yn ei wneyd."

"Edrychwn ar eich Peleni fel rhai o'r pethau hyny ag ydynt yn angenrheidiol i gyssur a dedwyddwch teuluaidd."

"Nis gwn am un Feddyginiaeth yn Nghymru mewn cymmaint o fri, nac ychwaith wedi gwneyd cymmaint o ddaioni."

"Edrychir arnoch gan filoedd fel cymmwynaswr i'ch cenedl."

"Mae'n Feddyginiaeth rad, ryfeddol ei pharhad, effeithiol, syml, hawdd ei chael trwy holl ororau'n gwlad."

"Y mae yr Americaniaid yn meddwl y byd am eich meddyginiaeth, er gwaethaf eu rhagfarn yn erbyn pob peth Cymreig."

"After taking a few doses he passed no less than forty gall-stones."

"When I show them the *scores of stones* I have passed by taking your Pills, they are *struck dumb with wonder.* Seeing is believing."

"Your Pills a tonish the people here by their miraculous effects."

"Dyma un o'r bendithion mwyaf i ni, y dosparth gweithiol, a allasai Rhagluniaeth ei drefnu."

Ar werth drwy yr holl fyd, mewn blychau 1*s.* 1½*c. a* 2*s.* 9*c. yr un.*

Perchenog :—J. E. GEORGE, M.R.P.S., HIRWAIN.


INTERESTING FACTS FOR INVALIDS.
The experience of twenty years proves that no medicine for the cure of all the Disorders of the BOWELS, LIVER, KIDNEYS, and STOMACH, will bear comparison with GEORGE'S PILE AND GRAVEL PILLS.
It is an important fact that these Remedies are patronised and highly recommended by EMINENT MEDICAL MEN, both in this country and America.
Many of the wealthy of the land give their time and money to supplying the afflicted poor in their neighbourhoods with these Pills. This fact speaks volumes in favour of these Pills.
Were all the Testimonials that have been received in favour of these Remedies printed, they would fill a volume of over a THOUSAND PAGES of the ordinary size.
There is not a civilized nation under the sun that has not experienced the HEALING VIRTUES of these Remedies. For many years they have held the FIRST PLACE in the world as a remedy for the above disorders.
It is the opinion of those best able to judge that a discovery of greater importance to suffering humanity than GEORGE'S PILE AND GRAVEL PILLS has not been made in this century.
THOUSANDS have been cured by these Pills, and TENS OF THOUSANDS relieved of their pains; and many who have been pronounced hopeless have been THOROUGHLY RESTORED TO HEALTH by their use.
Sold in Boxes, 1/1½ and 2/9 (by Post, 1/3 and 2/10) each, by all respectable Chemists.
IMPORTANT CAUTION.—BEWARE OF SPURIOUS IMITATIONS.